Y CWLWM

EGLWYS UNEDIG GYMRAEG LLANDUDNO

MEDI - RHAGFYR 2010

" Deuwch ac Addolwn"

MEDI

5	Y Gweinidog (Cymun – Bore)
12	Parch Goronwy Prys Owen (Bala)
19	Parch R. Ifor Jones, Bae Colwyn
26	Y Gweinidog

HYDREF

3	Y Gweinidog (Cymun – Bore)
10	Parch Cledwyn Griffiths (Mynytho)
17	Y Gweinidog (Diolchgarwch)
24	Parch Huw Jones (Rhuddlan) – Bore
M	Mr. John Arfon Jones (Penmaenmawr) – Pnawn
31	Parch J. Roger Roberts (Llandudno)

TACHWEDD

7	Y Gweinidog (Cymun – Bore)
14	Parch Blodwen Jones (Llechwedd)
21	Parch E. Trefor Jones (Llandudno)
28	Y Gweinidog

RHAGFYR

5	Mr Goronwy Ellis, Treffynnon
12	Y Gweinidog (Cymun – Bore)
19	Gwasanaeth Nadolig Yr Ifanc (Bore yn unig)
26	Y Gweinidog (Bore yn unig)

Croeso cynnes iawn i chi i gyd

CYFARCHIAD

4 Rhiwledyn,
Craigside,
Llandudno
Ffôn : 01492 543964

Medi 2010

Annwyl Gyfeillion,

Daeth yn amser unwaith eto i anfon fy nghofion atoch trwy dudalenau Y Cwlwm. Anodd yw credu bod hwn yn rhifyn Medi a bod y flwyddyn yn carlamu i rywle. Dyma'r rhifyn sydd yn cynnwys rhestr y digwyddiadau a'u dyddiadau am y flwyddyn nesaf. Fel arfer fe fydd llawer o brysurdeb o'n blaenau a diolch i bawb sydd yn trefnu ac yn cefnogi popeth sydd yn digwydd yn yr Eglwys Unedig. Fe fydd yn chwythig ail gychwyn ein gweithgareddau ac ambell wyneb cyfarwydd bellach yn absennol ac wedi ein gadael. Collasom nifer o aelodau annwyl ers i rifyn diwethaf o'r Cwlwm ymddangos yn y Gwanwyn, ac fe anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at y teuluoedd a'r anwyliaid sy'n galaru. Fel teulu'r ffydd yn yr Eglwys Unedig yr ydym wedi cael ein tlodi gan y colledion, yn hiraethu am anwyliaid ac yn meddwl o ddifri pwy ddaw i gymryd lle y ffyddloniaid a'r gweithwyr ffyddlon sydd yn ein gadael.

Tuedd llawer o Eglwysi yw anwybyddu y colli a'r trai a bodloni ar rygnu 'mlaen tra medrant. Wrth gwrs fe wyddom na thâl hynny ddim; rhaid ymestyn allan yn genhadol a chroesawus. Dangosodd arolwg diweddar bod yn agos i dair miliwn o bobl ym Mhrydain a fyddai yn ystyried dod i Gapel neu Eglwys pe byddent yn cael gwahoddiad ac anogaeth. O ganlyniad, clustnodwyd y Sul Medi 26ain. eleni yn Sul dychwelyd yn ôl i'r Eglwys, i wahodd pobl yn ôl neu i fynychu am y tro cyntaf erioed. Y mae ugeiniau o Eglwysi trwy Gymru wedi cofrestru ar gyfer y fenter gan ein cynnwys ni yn yr Eglwys Unedig. Dyma gyfle i chwi wahodd teulu, ffrindiau neu gymdogion i ddod hefo chi i'r oedfa ar y Sul arbennig hwn.

Dyna'r cyfan sydd raid i chwi ei wneud. Wrth gwrs fe fyddai i ni weddio am y fenter hefyd yn werthfawr a bendithiol. Gan eich bod wedi ffurfio aelwyd gynnes, groesawus a chyfeillgar gyda'ch gilydd fel Eglwys Unedig, 'rwyn siwr y bydd unrhyw rai a ddaw i'r oedfa ar Fedi 26ain yn siwr o deimlo bod yn eich plith gymdeithas gwerth bod yn rhan ohoni.

Ymhlith y cyfarfodydd fydd eto yn ail gychwyn wedi'r haf, fe fydd y Cyfarfod Gweddi ar fore Gwener. Dros y flwyddyn diwethaf fe gollwyd o'n plith rai a fu'n ffyddlon iawn i'r cyfarfodydd ac fe fydd bwlch mawr ar eu hol. Apeliaf felly am rai i ymuno gyda ni o'r newydd yn y Cyfarfod Gweddi. Nodaf eto ei fod yn hollol anffurfiol, yn para hanner awr, ac nad oes unrhyw orfodaeth ar neb i gymryd rhan unigol, er bod amryw bellach wedi manteisio ar y cyfle i wneud hynny yn gwbl wirfoddol, a'u cyfraniad yn fendith i bawb ohonom. Ni all unrhyw Eglwys na Christion esgyn yn uwch na'i gweddi neu ei weddi, ac mae unrhyw lwyddiant a bendith a ddymunem yn ein plith, yn dibynnu ar i ni geisio Duw o ddifri mewn gweddi. Fe estynnaf felly wahoddiad cynnes a thaer i chwi ymuno a'r cyfarfod fore Gwener o Fedi'r 3ydd ymlaen

Yn ystod Mis Awst bu i ni fel Eglwys orfod ffarwelio a dau o flaenoriaid ac fel gwerthfawrogiad o'u gwasanaeth fe gyhoeddwn ddau goffad.

Mrs. Myra Owen

Mae'n anodd meddwl fod Myra wedi ein gadael gan ei bod yn berson mor siriol ac ifanc ei hysbryd, ac môr gefnogol i bob un ohonom a gafodd y fraint o fod yn Weinidog iddi. Gwasanaethodd fel Blaenor yn Seilo ac yn yr Eglwys Unedig am ddeunaw mlynedd, a bu yn gydwybodol iawn yn y gwaith, yn ffyddlon fel ymwelydd ac yn ffyddlon i bob gweithgarwch yn yr Eglwys; dwy oedfa y Sul, astudiaeth Nos Lun, cyfarfod y chwiorydd a'r cyfarfod gweddi fore Gwener. Bu yn ffyddlon i Cytun ac fel arwydd o'i ffyddlondeb fe gafodd ei gwneud yn aelod am oes. Gweithiodd yn ddiwyd hefyd dros Cymorth Cristnogol, ac hyd at y llynedd yn dal i fynd i gasglu drostynt. Fe gefnogodd waith Cymdeithas y Beibl yn ffyddlon iawn hefyd ar hyd y blynyddoedd. Yr oedd parch mawr iddi yn ei heglwys ei hun ac ymhlith eglwysi eraill y dref. Enillodd barch a gwerthfawrogiad pobol yr ardal hefyd fel nyrs, a bu ei gofal o bobol yn nodwedd amlwg o'i bywyd ar hyd ei hoes.

Yn oedd yn berson gwir ymroddedig ac o ddifri ynglyn â gwaith ei Gwaredwr a'i Harglwydd Iesu Grist. Ond er o ddifri nid oedd yn berson difrifol, yr oedd yn llawn hiwmor a chanddi wên barod a chwerthiniad iach. Er môr ddifrifol ac anodd ei gwaeledd dros y misoedd diwethaf, 'roedd ei gwên a'i hanwyldeb yn dal yr un. Yr oedd yn werthfawrogol a diolchgar am bob ymweliad, pob caredigrwydd a phob gofal. Yn ei gwaeledd hefyd fe danlinellwyd ei ffydd ac fe fu gweddi yn gymorth ac yn nerth iddi. Yn sicr yr oedd yn ymddiried yn Iesu fel ei Gwaredwr a'i Harglwydd.

Er na chefais ond ei hadnabod am ychydig dros ddwy flynedd, fe gyfrifaf hynny yn fraint, a diolchaf am gael cvdweithio gyda hi yng ngwaith Y Deyrnas. Bu ei chefnogaeth a'i chymorth, yn enwedig mynd a fi weld nifer o'r rhai oedrannus mewn cartrefi preswyl, ynghyd â'i chyfeillgarwch yn fendith i mi ac yn help mawr i mi ymgartrefu môr hapus yma yn Llandudno. Diolch am y fraint o gael ei hadnabod.

Estynwn i Gwenda a phawb o'r teulu a'r cyfeillion ein cydymdeimlad cywiraf.

Mr. William Emrys Jones
Cafodd Emrys Jones yrfa ddisglair mewn dau gyfeiriad, yn y fyddin ac yn y frigad dân. Ymunodd a'r fyddin ym 1936 fel preifât ac wedi bod drwy erchyllterau yr ail ryfel byd a gweld brwydro Dun kirk, D-Day a rhyddhau'r cyfandir, cafodd ei ddyrchafu yn "Major" erbyn gadael y fyddin ddiwedd y rhyfel. Ychydig a soniai am y rhyfel, oherwydd fe welodd bethau erchyll a cholli nifer o ffrindiau. O ystyried ei natur dawel ac addfwyn y mae'n anodd meddwl amdano yn filwr.

Wedi'r rhyfel ymaelododd a'r frigid dân gan wasanaethu yma yn Llandudno a mannau eraill yn y Gogledd, yn ogystal ac yng Nghanolbarth Cymru lle y daeth yn Brif Swyddog y Frigad ym Mhowys. Er y llwyddiannau a'r swyddi uchel a ysgwyddodd,yr oedd yn ŵr tawel a dirodres iawn. Byddai pawb yn cyfeirio ato fel gŵr bonheddig.

Cafodd ei ethol yn flaenor ym Methania chwarter canrif yn ôl, yn fuan ar ôl ymddeol i Landudno ac ymaelodi ym Methania. Ef bellach oedd ein blaenor hynaf ym Methania ac yn yr Ofalaeth bro. Yr oedd yn uchel iawn ei barch ym Methania am ei bersonoliaeth a'i wasanaeth. Yr oedd yn hynod ffyddlon ac yn ymwelydd ffyddlon hyd y misoedd diwethaf pan oedd ei iechyd yn pallu. Fel

eraill o'i gydaelodau ym Methania fe deimlai i'r byw o weld y Capel yn gorfod cau, ond yr oedd yn ŵr doeth ac ymarferol ac yn sylweddoli mai uno â'r Eglwys Unedig oedd yr unig ddewis bellach. Ni fedrodd fynychu yr oedfaon yn Seilo gan iddo gael codwm ddechrau'r flwyddyn a methu codi allan ar ôl hynny. Ofnai y byddai pobol yn meddwl ei fod wedi digio ac wedi cadw draw, ac yr oedd yn ofid iddo na fedrai ddod i addoli yn ffyddlon yn ôl ei arfer.

Mae'n siwr bod llawer o'r profiadau a gafodd ar hyd ei oes wedi ei siapio i fod y person annwyl arbennig ydoedd, ond yn sicr ei ffydd oedd y dylanwad mwyaf. Ymhyfrydai yn y ffaith mai yn y Capel yn Llangoed, Sir Fôn y cyfarfu ei briod Megan. Ei ffydd a'i ymddiriedaeth yn Iesu Grist oedd ei nerth a'i gysur yn ystod ei fisoedd olaf wrth wynebu llesgedd a gwaeledd, ac yr oedd gweddi yn bwysig iddo. Braint oedd ei adnabod, o gydweithio ag ef ac o gael bod yn Weinidog iddo.

Estynnwn ei cydymdeimlad cywiraf i'w blant, Alan, Helen, Gwen a Richard a'u teuluoedd.

Cofion atoch i gyd a diolch am bob bendith a gaf eu mwynhau yn eich plith.

Yr eiddoch yng Nghrist,

Dafydd.

LLOFFION O'R FESTRI

BLAENORIAID / DIACONIAID Y MIS

Medi

Evan W. Evans Gwilym Williams Dyfed Elias
John Lewis Jones John Arfon Jones Mai Owen

Hydref

R. Gwynfor Roberts Idris Davies Chris Griffiths
Gwilym C. Williams Gwyddfid Davies

Tachwedd

Evan W. Evans Gwilym Williams Dyfed Elias
John Lewis Jones John Arfon Jones Mai Owen

Rhagfyr

R. Gwynfor Roberts Idris Davies Chris Griffiths
Gwilym C. Williams Gwyddfid Davies

YR YSGOL SUL

Cyn diwedd tymor yr Haf bu'r plant ac athrawon yr Ysgol Sul yn brysur yn paratoi ar gyfer Cymanfa'r plant. Roedd hyn yn cynnwys dysgu emynau ar gyfer cystadlaethau George Edwards, dysgu'r tonnau newydd o'r Detholiad a gwneud modelau, collages a lluniau i'r adran gwaith llaw. Roedd yn gyfle da i groesawu plant o Ysgolion Sul yr ardal atom, a'u gwahodd am ddiod a bisgedi ar ddiwedd yr oedfa er mwyn cael cymdeithasu â hwy.

I gloi'r tymor cawsom fore o hwyl yn y festri, a bu llawer o weiddi a chwerthin wrth chwarae'r gemau ! Ar ôl yr holl firi, aethom yn ein blaenau i Gelli Gyffwrdd – 40 ohonom i gyd. Cawsom dywydd braf ac 'roedd hi'n fendigedig gweld y teuluoedd yn ymuno yn y sbort. Roedd yn gyfle gwych i bawb ddod i adnabod y rhieni a'r plant yn well, ac yn gwneud i ni sylweddoli'r pwysigrwydd o ddod at ein gilydd fel un teulu mawr.

Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth a gawsom i'n pnawn " Te ac Adloniant" a gynhaliwyd yr wythnos olaf o'r tymor. Gwnaed elw o £158.45 a bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i dalu am adnoddau ac offerynnau bach taro i'r dosbarth Meithrin a Derbyn.

Wrth edrych 'nol ar y flwyddyn a fu, mae'n galonogol gweld nifer y plant wedi cynnyddu i 22, a bod y mamau'n dod ac yn aros gyda'r plant lleiaf. Rydym yn ymfalchio fod un o'r mamau am ymuno â thîm o athrawesau y dosbarth Meithrin a Derbyn. Os gwyddoch am blant eraill a hoffai ymuno â ni ar fore Sul, bydd croeso cynnes iawn iddynt.

Mae gennym gynlluniau'n barod ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf. Edrychwn ymlaen i agor y tymor ar y 5ed o Fedi yng nghwmni Nia o Bwllheli. Byddwn yn gwneud taith gerdded y Sul canlynnol ar hyd y Prom i Graig-y-Don ac yn ôl, i helpu bachgen bach o'r Cyffordd sydd yn dioddef o Leukemia. Byddwn yn falch o unrhyw gyfraniad at yr achos teilwng hwn. Cynhelir cyfarfod Nos Fawrth, Medi'r 7fed. am 7.45pm. i'r swyddogion, athrawon a rhieni, er mwyn trafod sut i ddatblygu ein anghenion ymhellach.

Cyn cloi, hoffem, fel tîm o athrawon a helpwyr yr Ysgol Sul, ddiolch yn ddiffuant iawn i'r plant am eu ffyddlondeb a'u parodrwydd i wneud eu rhan bob amser. Mae ein dyled i'w rhieni am eu cefnogaeth barod bob amser ac i

aelodau'r Eglwys am eu diddordeb yn y plant ac am fod mor gefnogol i bob gweithgaredd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

" Boed i waith dy Ysbryd Sanctaidd
Lwyddo fwyfwy ynom ni. "

CYMDEITHAS PAWB

Llywydd	Hywel Williams
Is – Lywydd	Gareth Pritchard
Ysgrifenyddion	Trefor a Beryl Lewis
Trysorydd	Chris Griffiths
Is – Drysorydd	Gwyddfid Davies

Cyfarfodydd ar Nos Lun am 7.00 o'r gloch yn Festri Seilo

Rhaglen Hanner Cyntaf y Tymor

11 Hydref	Cyngerdd; Côr Meibion Dwyfor (7.30)
25 Hydref	Bleddyn Hughes, Llanrwst – "Taith i'r India"
8 Tachwedd	Neville Hughes, Bethesda – "Cyfraniad Hogia Llandegai"
22 Tachwedd	Russell Jones – "Byw yn y Wlad a Byw yn Iach"
6 Rhagfyr	Naws y Nadolig (Hywel Williams a Judith Rees Williams)

DOSBARTH BEIBLAIDD

(**Bore Mercher am 9.30 - bod yn ail wythnos â Chymdeithas Pawb)**

Dyddiadau :- 6 Hydref; 20 Hydref ; 3 Tachwedd ; 17 Tachwedd; 1 Rhagfyr

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD

Erbyn hyn mae rhaglen tymor y gaeaf wedi ei pharatoi. Bydd bore Coffi ar y bore Iau cyntaf o bob mis, a sgwrs gan siaradwr gwadd ar y trydydd pnawn Iau ym Mis Hydref a Tachwedd. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu.

Laura Roberts (Ysgrifennydd)

Y CYD – GYNGOR EGLWYSIG

Erbyn y daw y rhifyn hwn o'r Cwlwm i'ch cartref hyderwn y byddwn wedi symud yn ôl i Seilo. Mae'r nenfwd wedi ei beintio'n chwaethus, y prif oleuadau wedi eu gostwng, a golau gwell ar ddwy ochr y galeri. Diolch i gyfeillion Y Tabernacl am eu croeso.

Gobeithiwn hefyd y bydd gwresogi yr Ysgoldy wedi ei wella cyn y gaeaf. Dylai'r gwaith yma ystwng ychydig ar y biliau nwy.

R. Gwynfor Roberts (Ysgrifennydd)

GOFALWR

Diwedd Mis Awst bydd Rhys Roberts yn gorffen ei wasanaeth fel ein gofalwr, ac yn sicr 'rydym am gydnabod yn ddiolchgar ei wasanaeth parod yn ystod y cyfnod y bu gyda ni. Gwelwyd graen ar ei waith a'i ofal o'r adeiladau oddifewn ac oddi allan. Cyflwynwyd rhodd iddo fel cydnabyddiaeth am ei lafur parod i ni.Pob dymuniad da i ti Rhys.